Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cwmfelin

**Heol Maesteg**
**Cwmfelin**
**Maesteg**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF34 9LD**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cwmfelin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Cwmfelin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 217 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 161 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 11.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 4.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/11/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 18/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/01/2023 |
| Penodwyd y pennaeth parhaol ym mis Ebrill 2015. Fodd bynnag, ymgymerodd â secondiad amser llawn gyda Chonsortiwm Canolbarth y De o fis Tachwedd 2022. Dirprwy bennaeth parhaol yr ysgol yw'r pennaeth dros dro. Caiff ei chefnogi gan ddau bennaeth cynorthwyol dros dro ar hyn o bryd. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Cwmfelin yn amgylchedd anogol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, yn hapus a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae’r pennaeth dros dro effeithiol, uwch arweinwyr a staff medrus, yn creu ethos lle mae disgyblion yn gwybod eu bod yn bwysig ac yn gallu datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu ac yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a brwdfrydedd yn eu gwersi. Maent yn mwynhau’n fawr y clybiau a’r gweithgareddau ychwanegol niferus y maent yn eu mynychu, fel y clwb crefftau a gwersi ffidil. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl.

Mae staff ar draws yr ysgol yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion. Dangosant ofal a charedigrwydd cyson, ac o ganlyniad, mae pob un o’r disgyblion yn gyfforddus i geisio help a gofyn am gymorth pan fydd angen. Mae’r addysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae staff yn cynnig profiadau teilwredig i unigolion yn rheolaidd, sy’n cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn datblygu medrau rhifedd a digidol effeithiol ac yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn eu medrau siarad, gwrando a darllen. Fodd bynnag, nid yw cynnydd disgyblion hŷn o ran datblygu medrau ysgrifennu a medrau llafaredd Cymraeg mor gryf.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn galluogi disgyblion i ddilyn diddordebau penodol a datblygu eu meddwl annibynnol yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn archwilio amrywiaeth o gwestiynau o fewn testun trosfwaol o’r enw ‘ymholiad’. Mae athrawon yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu o fewn cyd-destunau dilys. Mae prosiect ‘Big Bocs Bwyd’, lle caiff bwyd fforddiadwy ei ddarparu i’r gymuned leol, yn enghraifft ragorol o hyn. Mae ymagwedd yr ysgol at y ddarpariaeth hon yn hynod effeithiol o ran cefnogi medrau bywyd disgyblion fel coginio a defnyddio arian. Yn ychwanegol, mae’n cynorthwyo disgyblion hŷn i ymgymryd â rolau arwain defnyddiol wrth iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau penodol fel stocio’r silffoedd. Mae pob un o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa o sesiynau dysgu rheolaidd a buddiol yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn dyfnhau eu gwybodaeth am fywyd gwyllt ar dir yr ysgol ac yn datblygu eu ffitrwydd trwy redeg y ‘filltir ddyddiol’.

## Argymhellion

A1 Gwella addysgu ysgrifennu estynedig i sicrhau bod disgyblion hŷn yn datblygu a threfnu eu syniadau’n effeithiol

A2 Sicrhau bod addysgu Cymraeg yn adeiladu’n raddol ar fedrau llafaredd disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a ariennir gan y grant datblygu disgyblion, i sicrhau bod arweinwyr yn gwybod am yr effaith a gaiff ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion bregus

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â darparu profiad dysgu dilys trwy eu darpariaeth hynod fuddiol, sef Big Bocs Bwyd.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn datblygu eu medrau llafaredd Saesneg. Mae disgyblion iau yn siarad â hyder am eu dysgu ac yn defnyddio ystod dda o eirfa. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau siarad a gwrando yn eithriadol o dda i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn gwrando ar syniadau ei gilydd â diddordeb ac yn cyfiawnhau eu meddyliau'n glir wrth iddynt weithio mewn grwpiau i drafod yr agweddau pwysicaf ar waith tîm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus ac yn dangos angerdd cryf am lyfrau a storïau. Mae disgyblion iau yn datblygu eu dealltwriaeth o rediad stori a chymeriadau yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn siarad yn gyffrous am y tri arth ar ôl derbyn llythyr gan Elen Benfelen. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau syml yn hyderus, gan roi ystyriaeth dda i atalnodi. Mae disgyblion hŷn yn adeiladu ar y cynnydd hwn yn effeithiol iawn ac yn datblygu ystod o strategaethau i fod yn ddarllenwyr annibynnol rhugl. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cwblhau tasgau darllen heriol yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu gwybodaeth am destunau i roi adrannau manwl o ysgrifennu perswadiol mewn trefn yn llwyddiannus.

O oedran ifanc, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd am ysgrifennu cynnar, er enghraifft pan fyddant yn arbrofi â chreu marciau ar raddfa fawr yn y dosbarth meithrin. O'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 2, maent yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda trwy gyd-destunau difyr. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn penderfynu ysgrifennu cerdyn pen-blwydd i'r Babi Arth ar ôl dysgu ysgrifennu'r llythyren 'b'. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnwys atalnodi syml fel priflythrennau ac atalnodau llawn yn llwyddiannus. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o wahanol destunau'n dda, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu llythyrau buddiol at gymeriad stori sy'n teimlo'n drist.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol ac yn eu cymhwyso mewn ystod o gyd-destunau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth dda o'r darllenydd, gan ddefnyddio iaith ac atalnodi yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu storïau am sgerbwd, gan greu tensiwn trwy ymadroddion fel 'Then someone heard a scream…'. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cynnydd disgyblion hŷn mewn ysgrifennu yn rhy amrywiol. Yn aml, nid yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu elfennau technegol o fewn gwahanol fathau o destun, fel plot a pharagraffu, wedi'u datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu ac yn trefnu syniadau yn eu hysgrifennu yn unol â'u gallu.

Yn ystod eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn deall ac yn defnyddio rhif. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn gwybod bondiau rhif i 20 ac yn gallu adnabod pa rifau sy'n fwy neu'n llai i fyny i 100. Un o'r cryfderau arbennig yw'r ffordd y mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau perthnasol a dilys. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 3, mae disgyblion yn ymchwilio i'r gwahaniaeth rhwng naid wib a naid stond trwy eu mesur gan ddefnyddio metrau a chentimetrau. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fathemategwyr hyderus a medrus. Maent yn adio a thynnu i 100,000 yn llwyddiannus ac yn gweithio gydag arian i ddau le degol mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, er enghraifft wrth gyfrifo cost rysáit.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Maent yn gyfarwydd â defnyddio ymagwedd 'yn seiliedig ar ymholiad' tuag at ddatblygu eu syniadau a datrys problemau. Mae hyn yn cynnwys archwilio cwestiynau o fewn testun trosfwaol o'r enw 'ymholiad'. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn ymchwilio i'r deunyddiau gorau i greu offer amddiffyn y clyw ar gyfer cymeriad stori yn ystod ymholiad 'Goleuni a Sain o'n Cwmpas' ('Light and Sound All Around'). Maent yn gwneud rhagfynegiadau am ba ddeunyddiau fydd yn rhwystro sain orau ac yn profi eu cynnyrch gorffenedig trwy greu sain ag offerynnau taro. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn effeithiol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn archwilio lliw yn dda, wrth iddynt beintio â mwd arlliwiedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau digidol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dod yn fedrus yn gyflym wrth ddefnyddio cyfrifiadur llechen mewn sefyllfaoedd pwrpasol, er enghraifft ychwanegu recordiadau llais at luniau maen nhw wedi'u tynnu ohonyn nhw eu hunain. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio cod yn llwyddiannus i ddechrau dyfeisio gemau y gall pobl eraill eu defnyddio.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg, ac maent yn ymateb i gyfarwyddiadau athrawon yn dda. Mae llawer o ddisgyblion iau yn defnyddio cyfarchion ac ymadroddion syml yn gywir, er enghraifft wrth drafod eu teimladau. Fodd bynnag, mae cynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arafu o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, ac yn rhy aml, mae disgyblion yn ailadrodd y geiriau a'r patrymau brawddeg y maent wedi'u dysgu o flynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn gwneud digon o gynnydd yn dysgu Cymraeg.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder mawr ynddyn nhw eu hunain, eu hysgol, a'u gwaith. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu'r cyfleoedd dysgu a gânt ac yn gwneud y gorau o wersi a'r clybiau niferus a'r gweithgareddau ychwanegol sydd ar gael iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn bwyllog ac yn barchus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a moesgar. Maent yn cyfarch ymwelwyr â gwên ac yn aml yn dal drysau ar agor iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn

teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn hapus yn yr ysgol. Maent yn ymddiried yn y staff ac yn gwybod i bwy i ofyn am gymorth os bydd ei angen arnynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Er enghraifft, mae bron pob un o'r disgyblion iau yn gwisgo helmedi diogelwch pan fyddant yn reidio beiciau a threiciau yn yr ardal awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn deall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd gwarchod eu cyfrineiriau a'u gwybodaeth bersonol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfleu brwdfrydedd am ddysgu, gan ymgysylltu'n dda a dal ati i ganolbwyntio'n llwyddiannus o oedran cynnar. Mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o ddyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau. Maent yn deall pwysigrwydd cynnal agweddau cadarnhaol at eu gwaith a sut bydd hyn yn eu helpu i oresgyn heriau yn eu dysgu. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n dda iawn fel dysgwyr annibynnol. Mae disgyblion hŷn yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, gan wrando ar syniadau ac awgrymiadau pobl eraill ac ymateb yn ystyriol iddynt, er enghraifft pan fyddant yn creu gweddi i gydnabod a dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn gwerthfawrogi buddion ymarfer corff. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan ag egni a brwdfrydedd yn ystod gwersi addysg gorfforol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwd yn y gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol sy'n cael eu darparu gan yr ysgol, fel traws gwlad a phêl-rwyd. Mae disgyblion yn siarad ag egni a diddordeb am y profiadau dysgu a gânt y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae pob un o'r disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn 'Dydd Llun Mwdlyd' ('Muddy Mondays') lle maent yn mwynhau'r awyr iach ac yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau ysgogol i gefnogi'r cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gyfrannu at yr hyn y maent yn ei ddysgu. Ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion sy'n ymddiddori mewn dyfnhau eu gwybodaeth am y gofod yn dewis astudio ymholiad 'Y Tu Allan i'r Byd hwn' ('Out of this World'). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar a ddarperir gan athrawon ac yn deall sut i wella'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydnabod ystod o hawliau yn unol ag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae disgyblion hŷn yn siarad am eu hawliau â dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut i'w cymhwyso yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn nodi gwledydd lle na chaiff hawliau disgyblion eu bodloni, ac yn gwneud cymariaethau â'u bywydau eu hunain. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gofalu am bobl eraill. Er enghraifft, maent yn codi arian i gynorthwyo plant sy'n dioddef yn sgil canlyniadau'r rhyfel yn Wcráin.

Mae disgyblion â chyfrifoldebau yn cymryd eu rolau o ddifrif ac yn defnyddio'r cyfleoedd hyn i ddysgu medrau newydd. Mae pob un o'r disgyblion ym Mlwyddyn 5 a 6 yn ymgymryd â rolau arwain pwrpasol. Er enghraifft, mae'r Arweinwyr Lles yn darparu cymorth a help ar gyfer disgyblion iau ac mae Arweinwyr y Tasglu Newyddion yn ysgrifennu cylchlythyr 'Cwmfelin News' bob pythefnos.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir i ddatblygu cwricwlwm sy'n meithrin pob plentyn fel unigolyn. Mae ystod o destunau difyr yn seiliedig ar ymholi yn dal diddordeb disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn siarad yn frwdfrydig am eu hymholiad 'Darganfyddiad Digidol' a'r cyfleoedd mae'n eu rhoi iddynt feithrin eu diddordeb presennol mewn codio, a'u dealltwriaeth ohono.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dychmygus ar ddechrau pob ymholiad sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn cyffroi wrth iddynt ddarganfod 'trosedd' yn yr ardal awyr agored ar ddechrau ymholiad yn seiliedig ar stori. Yn ychwanegol, mae digwyddiadau arddangos yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion atgyfnerthu a dathlu dysgu ar ddiwedd pob ymholiad yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cynllunio a chyflwyno sesiynau iechyd a lles, gan gynnwys ioga ar gyfer disgyblion iau ar ddiwedd eu hymholiad 'Corff Iach, Meddwl Iach'.

Un agwedd ragorol ar gwricwlwm yr ysgol yw'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio prosiect sefydledig Big Bocs Bwyd, lle caiff bwyd fforddiadwy ei ddarparu i'r gymuned leol. Mae'r ddarpariaeth hon yn hynod effeithiol yn cefnogi dysgu o fewn cyd-destun dilys. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn cymhwyso a datblygu eu dealltwriaeth o rif ac arian yn dda wrth iddynt brynu bwyd a chyfrifo'r newid angenrheidiol. Mae disgyblion hŷn yn datblygu medrau bywyd yn llwyddiannus wrth iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau penodol yn ymwneud â chynnal y Bocs, fel stocio'r silffoedd a monitro tymheredd yr oergell.

Mae staff yn darparu ystod ddifyr o ddarpariaeth dan do a'r tu allan sy'n helpu disgyblion iau i ddysgu'n effeithiol trwy chwarae ac archwilio. Caiff hyn effaith hynod gadarnhaol ar eu datblygiad personol, cymdeithasol a chorfforol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y meithrin yn cydweithio'n dda wrth iddynt gludo ffrindiau ar 'dreic tacsi'. Mae dysgu yn yr awyr agored yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau gwerth chweil fel creu gwaith celf naturiol a dysgu am fywyd gwyllt sy'n byw ar dir yr ysgol.

Mae staff ar draws yr ysgol yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf iawn gyda disgyblion. Maent yn dangos gofal a charedigrwydd cyson, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gyfforddus i geisio help a gofyn am gymorth pan fydd angen. Mae'r addysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae staff yn cynnig profiadau teilwredig i unigolion yn rheolaidd, sy'n llwyddo i gefnogi eu dysgu. Mae staff cymorth gwybodus a galluog yn gweithio'n fedrus gyda disgyblion, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar eu cynnydd ar draws yr ysgol.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion mewn gwersi. Yn aml, mae athrawon yn annog cydweithio i annog disgyblion i fynegi eu meddyliau a gwrando'n ofalus ar ei gilydd. Caiff y sesiynau hyn eu rheoli'n dda iawn, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn trafodaethau ac yn datblygu eu meddwl yn aeddfed. At ei gilydd, mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth gadarn am y pynciau y maent yn eu haddysgu. Er enghraifft, mae addysgu darllen ar draws yr ysgol yn adeiladu'n raddol ar fedrau disgyblion. Fodd bynnag, wrth addysgu Cymraeg, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o her

i ddisgyblion, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau yn y maes hwn cystal ag y gallent.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio holi'n effeithiol i herio meddwl disgyblion a gwirio dealltwriaeth. Mae ganddynt amcanion clir ac maent yn darparu esboniadau effeithiol i helpu disgyblion i wneud cynnydd â'u dysgu. Bron ym mhob achos, maent yn modelu ymagweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn darparu adnoddau defnyddiol i gynorthwyo disgyblion. Er enghraifft, wrth archwilio a didoli deunyddiau didraidd a thryloyw, mae athrawon yn darparu rhwydi ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 3 i annog ac ymestyn eu meddwl.

Bron ym mhob achos, mae athrawon a staff cymorth yn gwybod yn dda beth yw cryfderau eu disgyblion a'u meysydd i'w gwella. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio adborth llafar yn fedrus yn ystod gwersi i helpu disgyblion i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i wella'u gwaith. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn esbonio'n hyderus sut byddant yn gwella'u hysgrifennu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn amgylchedd anogol a chynhwysol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ethos cefnogol a'r ddarpariaeth o ansawdd uchel ar draws yr ysgol yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu, a medrau personol a chymdeithasol cryf.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar waith i nodi a diwallu anghenion disgyblion ag ADY. Mae staff yn monitro cynnydd y disgyblion hyn yn gynhwysfawr. Mae'r arweinydd sy'n gyfrifol am ADY yn gweithio'n bwrpasol gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol. O ganlyniad, caiff disgyblion y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd effeithiol yn erbyn eu targedau dysgu unigol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da yn gweithredu cynlluniau datblygu unigol sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol i hyrwyddo ymarfer corff a bwyta ac yfed yn iach, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd dewis ffordd iach o fyw. Caiff hyn effaith gadarnhaol. Er enghraifft, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau cadw'n heini pan fyddant yn cymryd rhan mewn rhedeg y 'filltir ddyddiol'.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn cynllunio cymorth ychwanegol buddiol i ddisgyblion pan fydd angen iddynt gryfhau eu gwydnwch emosiynol. Mae gweithgareddau cynlluniedig yn cynorthwyo disgyblion i ymlacio, myfyrio a hybu eu lles yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dysgu buddion cymryd amser i aros a mwynhau'r presennol wrth iddynt fyfyrio ar y pethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n hapus. Mae disgyblion iau yn datblygu amrywiaeth o strategaethau i gefnogi eu lles, fel 'anadlu â bysedd' pan fyddant yn anadlu'n araf wrth iddynt olrhain amlinelliad eu bysedd.

Mae staff yn cynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol yn llwyddiannus. Caiff rhieni gyfleoedd rheolaidd i drafod lles a chynnydd eu plant gydag athrawon. Mae menter

ddiweddar 'Amser Myfyrio' yn cynnwys disgyblion mewn dewis darn o waith i'w rannu gyda rhieni ar ddiwedd pob wythnos. Mae hyn yn cefnogi ymdeimlad o falchder disgyblion yn eu gwaith ac yn rhoi man cychwyn i rieni drafod y pethau y mae eu plant yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu ystod fuddiol o gyfleoedd sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol a moesegol disgyblion. Mae sesiynau dyddiol addoli ar y cyd, pan gaiff disgyblion amser i fyfyrio, yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o natur amrywiol ein cymdeithas yn dda, ac yn cynnwys dathliadau o fathau eraill o ffydd fel Diwali. Mae staff yn ymateb yn hyblyg i ddigwyddiadau digymell, ac mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu ymdeimlad disgyblion o syndod a rhyfeddod yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn ystod diwrnod rhewllyd, maent yn mynd â disgyblion meithrin ar y cae i sylwi ar y dail yn 'pefrio' a theimlo'r glaswellt yn crensian o dan eu traed.

Mae staff yn annog disgyblion i gefnogi a helpu ei gilydd ac ystyried pobl eraill, er enghraifft pan fyddant yn codi arian sylweddol ar gyfer elusen Dogs' Trust. Mae ffocws cryf ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hawliau plant. O ganlyniad, mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir o degwch a chynhwysiant yn eu bywydau eu hunain, a bywydau pobl eraill.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau a chyfleoedd i helpu disgyblion i ddatblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Er enghraifft, maent yn mynychu Jambori ar-lein, ac mae Blwyddyn 6 yn dylunio eu ci Snoopy eu hunain, sef 'Ci Cynefin Cwmfelin', i ddathlu hanes a nodweddion naturiol Maesteg.

Mae'r ysgol yn darparu ystod ddefnyddiol o weithgareddau ar gyfer disgyblion i godi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o faterion amserol. Er enghraifft, maent yn trafod rhaglenni newyddion dyddiol a chyhoeddiadau wythnosol. Mae disgyblion yn dyfnhau eu dealltwriaeth o faterion pwysig, fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ystod Mis Mae Bywydau Du o Bwys.

Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol, ac mae'r trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn creu a chynnal amgylchedd diogel i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys diogelwch effeithiol ar y safle, a threfniadau mynediad ar gyfer ymwelwyr. Ceir system sefydledig ac a ddeëllir yn dda i adrodd am bryderon ynghylch diogelu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ymwelwyr ac asiantaethau eraill i gefnogi dealltwriaeth disgyblion o sut i aros yn ddiogel. Er enghraifft, mae Swyddog Cymorth Cymunedol lleol yr Heddlu yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am ddiogelwch ar y ffordd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n gyrru'r gofal a'r addysg o ansawdd uchel a gaiff disgyblion. Mae holl gynlluniau a pholisïau'r ysgol yn gweithio gyda'i gilydd i'r perwyl hwn. Mae'r pennaeth dros dro effeithiol, yr uwch arweinwyr a'r staff medrus yn creu ethos lle mae disgyblion yn gwybod eu bod yn bwysig a'u bod yn gallu datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo lles staff yn effeithiol, gan sicrhau bod barn pawb yn cael ei hystyried, a bod staff yn teimlo eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth. Mae

arweinwyr yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol. Maent yn rhoi rolau a chyfrifoldebau clir i staff. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn dda ag anghenion yr ysgol ond hefyd yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion staff unigol. Mae arweinwyr yn dda wrth olrhain pa mor dda y mae staff â chyfrifoldebau yn rheoli eu gwaith trwy gyfarfodydd tîm pwrpasol a rheolaidd uwch arweinwyr.

Mae gan y corff llywodraethol bwyllgorau priodol ar waith i ddiwallu anghenion yr ysgol a'i rhwymedigaethau statudol. Mae'r pwyllgorau hyn yn galluogi llywodraethwyr i fonitro gwariant yn briodol a chadw golwg ar y cyllid cyffredinol. Mae dealltwriaeth dda llywodraethwyr o gyllid yr ysgol yn eu galluogi i wneud penderfyniadau sy'n cyfrannu at les staff a gwneud addasiadau arloesol i'r strwythur staffio, fel penodi dau bennaeth cynorthwyol dros dro yn ddiweddar. Hefyd, mae llywodraethwyr yn arwain mentrau i wella'r ddarpariaeth yn yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi ffurfio pwyllgor arbennig i greu 'siop gyfnewid' ar gyfer dillad ac offer chwaraeon plant. Y nod yw lleihau effaith yr argyfwng costau byw i deuluoedd yn y gymuned. Mae llywodraethwyr yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn dda. Maent yn sicrhau bod llaeth a dŵr yn cael eu darparu yn yr ysgol ac yn gwybod bod staff wedi bod yn effeithiol yn annog blychau cinio iach.

Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y cymorth hwn yn ddigon trylwyr i gadarnhau bod y disgyblion hyn wedi elwa o'r cymorth a ddarperir.

Mae hunanwerthuso pwrpasol yn digwydd mewn meysydd pwysig. Er enghraifft, datgelodd archwiliad medrau staff fod angen datblygu addysgu medrau meddwl. Mae gweithgareddau fel edrych ar waith disgyblion, arsylwi dysgu a siarad â disgyblion yn cyfrannu at y broses fonitro a gwerthuso. At ei gilydd, mae arweinwyr yn cynnal ffocws clir ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a lles disgyblion. Er enghraifft, o graffu ar gynllunio athrawon, datgelwyd bod bylchau pwysig yn y ddarpariaeth ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE). Ymatebodd arweinwyr trwy drefnu hyfforddiant staff a phrynu adnoddau i sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â'r holl agweddau perthnasol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hunanwerthuso effeithiol yn digwydd yn anffurfiol hefyd. Er enghraifft, sylwodd arweinydd nad oedd disgyblion yn gwneud cynnydd yn systematig mewn datblygu medrau echddygol bras. Rhoddwyd cynllunio mwy strwythuredig ar waith, ac erbyn hyn, ceir dilyniant clir o fedrau mewn gwersi addysg gorfforol. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd, nid yw arweinwyr yn defnyddio monitro'n ddigon gofalus i nodi meysydd sydd angen eu gwella, fel medrau Cymraeg disgyblion.

Mae gan yr ysgol hanes cryf o ran gwneud gwelliannau, a'u cynnal, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cynnal safonau uchel mewn darllen trwy ddarparu adnoddau deniadol yn ystod y pandemig, a chyflwyno darllen dan arweiniad mewn grwpiau ac adrodd storïau i'r dosbarth cyfan wedi i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff yn dda iawn. Mae dysgu proffesiynol i wella addysgu a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn arwain at arferion ystafell ddosbarth effeithiol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cysylltu ei

dysgu proffesiynol yn glir â chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella. Un o gryfderau arbennig y dysgu proffesiynol sy’n digwydd yw’r ffordd y mae arweinwyr yn annog arloesi. Er enghraifft, roeddent eisiau annog ffyrdd gwell o ddefnyddio’r ardaloedd yn yr awyr agored, a darparont hyfforddiant dysgu yn yr awyr agored ar gyfer staff. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn awr yn elwa o gyfleoedd rheolaidd a buddiol i ddysgu yn yr awyr agored.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  27/03/2023